# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Llun 21 Mehefin 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 10.15am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); H Howard (Pennaeth Cyllid); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); G Williams (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3 Nid oedd unrhyw rybudd o faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MAWRTH 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15 Mawrth eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am y cyfarfodydd a fynychodd ers mis Mawrth.

6.2 Roedd pob cyfarfod wedi cael ei gynnal yn rhithiol, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r PST a'r Dirprwy Gadeirydd, y sesiwn briffio am gyflogau gyda'r NJC, a chyfarfodydd y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 Y DIWEDDARAF AM COVID-19

7.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau yn ymwneud â COVID-19, ynghyd â'r sefyllfa ddiweddaraf yn y Gwasanaeth.

7.2 Nodwyd mai bach oedd effeithiau COVID-19 ar y Gwasanaeth ei hun. Mae'r Gwasanaeth yn parhau â'i broses adferiad ac wrthi'n paratoi ar gyfer ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.

7.3 Mae'r staff yn parhau i gael profion llif unffordd sy'n cynnwys cyfuniad o brofion i'w cymryd gartref ac yn y gweithle.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL 2020 – MAWRTH 2021

8.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch y Gwasanaeth a'i berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

8.2 Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, aeth y Gwasanaeth at gyfanswm at 4,698 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen gyda'i gilydd – 3.6% yn llai nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

8.3 Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 11,334 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 4,382 i gartrefi a oedd wedi'u nodi'n rhai â risg uchel o dân. Er y nodwyd bod y nifer a gynhaliwyd yn is na'r bwriad, roedd y Gwasanaeth wedi parhau i anelu ei weithgarwch tuag y rhai â'r angen mwyaf; roedd 34.5% (3,908) o'r Archwiliadau a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth gan asiantaethau eraill dan gytundebau partneriaethol wedi'u cynllunio i helpu i ganfod cartrefi sy'n fwy agored i niwed. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion gorau i dargedu'r rhai â'r risg mwyaf o dân yn y cartref, roedd nifer y mathau hyn o danau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno wedi cynyddu o 43 yn 2019/20 i 51 yn 2020/21.

8.4 I ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau ynglŷn â'r mathau o gartrefi heb larwm mwg, esboniodd y PSC Morris fod gwaith dadansoddi'n cael ei wneud ond oherwydd mai niferoedd bach iawn sydd dan sylw, roedd yn anodd canfod unrhyw batrymau neu dueddiadau penodol.

8.5 Roedd yr Aelodau'n falch fod y Gwasanaeth wedi parhau i gynnal archwiliadau diogel ac iach, ac roeddent yn nodi bod ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu datblygu i gynnal yr archwiliadau. Dywedodd y Cyng. M Ll Davies fod dyletswydd hefyd ar Aelodau'r Awdurdod i hyrwyddo'r archwiliadau diogel ac iach i'r cyhoedd ar bob cyfle.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad ar fonitro perfformiad.**

9 CYNLLUN ARCHWILIO 2021

9.1 Cafodd cynllun archwilio 2021 ei gyflwyno i'r Aelodau er gwybodaeth. Roedd Matthew Edwards o Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod, a chyflwynodd y cynllun i'r Aelodau.

9.2 £61,264 oedd yr amcangyfrif o'r ffi a nodwyd yn y cynllun archwilio. Fodd bynnag, os gwelir bod gwaith ychwanegol yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd ffi ychwanegol.

9.3 Nodwyd y cafwyd cynnydd yn y ffi a oedd yn ddyledus, a hynny oherwydd bod angen gwneud gwaith ychwanegol yn dilyn ailbrisio eiddo'r Awdurdod.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Yn ystod yr eitem nesaf ar yr agenda, fe wnaeth y Clerc adael y cyfarfod.

10 DATGANIAD DRAFFT O GYFRIFON 2020/21

10.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno'r Datganiad drafft o Gyfrifon 2020/21 i'r Aelodau, gan ofyn am ddirprwyo'r dasg o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig terfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021.

10.2 O ran y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn, nodwyd y cafwyd £0.06m o danwariant yn y gyllideb refeniw. Oherwydd COVID-19, roedd y cynllun cyfalaf wedi cael ei ohirio tan 2021/22. Mae'r Awdurdod yn parhau i gadw cronfeydd wedi'u clustnodi, er mwyn darparu trefniadau ariannol wrth gefn ar gyfer digwyddiadau neu risgiau yn y dyfodol, ac fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2021 roedd cyfanswm £3.46m ar gael mewn cronfeydd a glustnodwyd.

10.3 Nodwyd bod y pandemig wedi creu gorwariant mewn rhai penawdau yn y gyllideb, megis adeiladau, cyflenwadau a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, ond roedd meysydd eraill wedi gweld tanwariant a oedd yn gwrthbwyso'r gorwariant. Y prif faes o danwariant oedd costau'r gyflogres oherwydd nad oedd swyddi gwag wedi cael eu llenwi oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi gallu hawlio arian o Gronfa Galedi Covid-19 Llywodraeth Cymru yn ystod hanner cyntaf 2020/21.

10.4 Diolchodd y Cyng. Apsley i'r PSTC MacArthur a'r tîm Cyllid, yn GTAGC ac yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, am yr holl waith a wnaed yn ystod y flwyddyn, ac am yr adroddiadau a'r sicrwydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor Archwilio.

10.5 **PENDERFYNWYD**

- **(i) nodi sefyllfaoedd alldro drafft y refeniw a'r cyfalaf, fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2020/21;**
- **(ii) dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon terfynol archwiliedig 2020/21 i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021;**
- **(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd; a**
- **(iv) nodi nad oedd unrhyw ddyledion drwg wedi cael eu dileu yn 2020/21.**

11 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

11.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2020/21. Roedd y ddogfen wedi cael ei hadolygu eisoes gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 10 Mai 2021, ac roedd yr Aelodau wedi argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

11.2 Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r gwaith o lunio datganiadau ariannol statudol 2020/21. Roedd y blaenraglen waith ar gyfer 2021/22 wedi cael ei chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Nodwyd y bydd asesiad yn cael ei wneud gan yr archwilydd allanol i gadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol a'i fod wedi cael ei lunio yn unol â'r Fframwaith.

11.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2020/21;**
**(ii) nodi'r blaenraglen waith ar gyfer 2021/22; a**
**(iii) cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.**

12 GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL GWIRIONEDDOL 2020/2021

12.1 Aeth Graham Williams o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy â'r Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn cynnwys manylion sefyllfa fenthyca'r Awdurdod a dangosyddion ariannol terfynol blwyddyn ariannol 2020/21.

12.2 Nodwyd mai £26.1m oedd gwerth y benthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021, ac roedd pob benthyciad yn rhai cyfnod sefydlog o ran natur. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod y benthyciadau a'r buddsoddiadau o fewn y terfynau ariannol a osodwyd gan yr Awdurdod.

12.3 Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, a bod yr aelodau wedi argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

12.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r benthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2021; a**
**(ii) cymeradwyo dangosyddion ariannol terfynol 2020/21.**

13 HER GYFREITHIOL I DDIWYGIADAU PENSIWN 2015

13.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr her gyfreithiol i weithredu'r diwygiadau i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân a ddaeth i rym yn 2015. Nodwyd bod y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael gwybodaeth am y mater yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2021.

13.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Llys Apêl, ar ôl proses gyfreithiol hirfaith ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran yn y diwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, wedi dyfarnu o blaid yr hawlwyr a bod y dyfarniad wedi'i gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2018. Roedd hyn yn cadarnhau nad oedd cyfiawnhad dros y gwahaniaethu ar sail oedran a oedd yn ymhlyg yn y diwygiadau i'r pensiwn yn 2015. Cyfeirir at yr achos fel Dyfarniad McCloud/Sargeant (y Dyfarniad).

13.3 Esboniodd y PSTC y cefndir ac mae cymhlethdod yr achos yn golygu na fydd y rhwymedi wedi'i gwblhau nes tua mis Hydref 2023. Rhaid gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth ac ystyrir bod rhai aelodau sydd i fod i ymddeol cyn cwblhau'r trefniadau deddfwriaethol yn derfynol yn rhai sy'n cael niwed uniongyrchol. Fodd bynnag, nes i'r dogfennau cynllunio manwl gael eu darparu nid ystyrir ei bod yn bosibl cyfrifo eu buddion oherwydd materion technegol ansicr.

13.4 Nodwyd bod ymgynghorwyr cyfreithiol awdurdodau tân ac achub y DU yn cydnabod bod anawsterau ar draws y sector. Maent yn ceisio cytuno ar ddull gydag Undeb yr FBU er mwyn gallu delio ag achosion o niwed uniongyrchol yn gyflym, teg a chyson.

13.5 **PENDERFYNWYD**

- **(i) nodi'r cefndir i Ddyfarniad McCloud/Sargeant;**
- **(ii) nodi'r sefyllfa bresennol o ran rhwymedi; a**
- **(iii) cymeradwyo'r argymhelliad nad yw achosion o niwed uniongyrchol yn cael eu symud ymlaen, gan aros cyfarwyddyd pellach gan yr ymgynghorwyr cyfreithiol neu dderbyn cyfarwyddyd cenedlaethol.**

14 DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN 2020/21

14.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020/21 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

14.2 Nodwyd mai dyma Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf yr Awdurdod, a'i fod yn pennu trefniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau nad yw'n annog nac yn cefnogi caethwasiaeth na masnachu pobl.

14.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2020/21, a nodi'r camau a gymerwyd.**

15 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

15.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol, a oedd yn nodi manylion gwaith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

15.2 Mae'r adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn rhoi manylion y gwaith a wnaed gan y bwrdd yn ystod 2020/21 ac mae'n darparu rhaglen waith ar gyfer 2021/22. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi ystyried yr adroddiad blynyddol yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill.

15.3 Diolchodd y Cyng. Apsley i bawb dan sylw am eu cefnogaeth tra bu'n Gadeirydd y Bwrdd, gan ganmol y sesiynau hyfforddiant rhagorol a gynhaliwyd gan y Rheolwr Pensiynau yn y cyfarfodydd.

15.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2020/21, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

16 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – CYLCH GORCHWYL

16.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno cylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol a oedd yn ymdrin â blwyddyn ariannol 2021/22. Cafodd y cylch gorchwyl arfaethedig ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2021. Argymhellodd y Bwrdd fod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

16.2 Nodwyd bod Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi adolygu cylchoedd gorchwyl pob bwrdd pensiwn lleol yng Nghymru, ac roeddent yn fodlon â'r cynnwys.

16.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2021/22, cyn ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

17 MATERION BRYS

17.1 Ar yr adeg hon, cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad y Prif Swyddog Tân a oedd ar fin digwydd. Fe wnaeth yr Aelodau isod, ar ran eu hawdurdodau lleol, dalu teyrnged i'r Prif Swyddog Tân am fwy nag ugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon i Ogledd Cymru a chyfanswm o 43 o flynyddoedd i'r gwasanaeth tân ledled y Deyrnas Unedig.

- Y Cyng. Peter Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Y Cyng. Meirick Lloyd Davies, Cyngor Sir Ddinbych
- Y Cyng. Ian Dunbar, Cyngor Sir y Fflint
- Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cyngor Gwynedd
- Y Cyng. Geoff Lowe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Y Cyng. Dylan Rees, Cyngor Sir Ynys Môn

17.2 Fe wnaeth y Cadeirydd, ar ran pawb a oedd yn bresennol, longyfarch y Prif Swyddog Tân am ei wasanaeth hir gan ddymuno ymddeoliad hapus ac iach iddo.

RHAN II

Dim materion.